PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD LLUN, 15 MAI 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),<br>Y Cynghorwyr Ahmed, Boes, Davies, Hopkins, Melbourne a/ac Gao |
| | Aelodau Cyfetholedig: Bridgid Corr (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr), Celeste Lewis (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr) a/ac Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru) |
| | Emily Gao (Cynrychiolydd Cyngor Ieuenctid Caerdydd) |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Patricia Arlotte (Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig) a’r Cynghorwyr Ferguson-Thorne a Simmons.

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim datganiadau buddiannau yn y cyfarfod hwn.

3 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

4 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CYNGHORI RHIANTA CORFFORAETHOL 2022/23

Rhoddwyd gwybodaeth gefndirol i'r Aelodau er mwyn hwyluso craffu cyn penderfynu ar Adroddiad Blynyddol Ymgynghorol drafft y Cyngor ar Rianta Corfforaethol 2022-2023 cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet ar 22 Mehefin 2023.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet dros Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol), y Cynghorydd Ash Lister (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Plant), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Tai a Chymunedau a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) a Matt Osbourne (Rheolwr Gweithredol, Hyb Diogelu ac Adolygu) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Merry i wneud datganiad pan ddiolchodd i'r swyddogion hynny sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor. Mae adroddiad y Pwyllgor yn ymdrin â'r cyfnod yn dod allan o'r pandemig a'r Etholiadau Lleol sy'n golygu bod aelodau newydd wedi bod yn rhan o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor. Mae'r Rhaglen Waith yn cyd-fynd â'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol a'r 5 blaenoriaeth allweddol a amlinellir yn yr adroddiad; gosodwyd y blaenoriaethau hynny gan blant a phobl ifanc.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Lister hefyd i wneud datganiad a gadarnhaodd fod mwy o waith y gellir ei wneud i sicrhau bod y Cyngor yn clywed lleisiau pob person ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol ddatganiad lle cyfeiriodd at y cynnydd a wnaed o ran y cysylltiad gan y Pwyllgor. Cynhaliwyd cyfarfod uwch dîm rheoli arbennig ym mis Rhagfyr y llynedd i sicrhau bod pob rhan o'r Cyngor yn deall y rhan y mae'n rhaid i Rieni Corfforaethol ei chwarae.

Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau. Mae’r drafodaeth wedi’i chrynhoi fel a ganlyn:

Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am gyllideb y Gwasanaethau Plant ac a fydd yn aros yr un peth. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Gyllideb Gwasanaethau Plant wedi dod yn flaenoriaeth allweddol, nid yn unig i Gyfarwyddwyr ond hefyd i Reolwyr Gweithredol a rheolwyr Tîm sicrhau bod pwysau cyllidebol yn cael ei reoli cyn belled ag y bo modd. Cafwyd rhai heriau digynsail. Fodd bynnag, bu llawer o waith o ran y strategaeth llety a recriwtio gofalwyr maeth, gan ystyried y costau mwy na'r disgwyl yn y meysydd hynny.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y sesiwn ymgysylltu â rhai aelodau o'r Pwyllgor a phobl ifanc â phrofiad o fod gofal sy'n rhan o grŵp Bright Sparks, a gofynnwyd am wybodaeth am rai o'r materion a godwyd. Clywodd yr aelodau bod pryderon wedi eu codi bod gwerth ariannol yn cael ei roi arnynt - er enghraifft, eu bod yn cael eu rhoi yn llety'r cynigydd uchaf. Mae'r awdurdod yn ymdrechu i sicrhau nad yw pobl ifanc yn cael eu lleoli ar sail arian, ond yn hytrach ar sail yr hyn sydd er eu lles. Roedd yn sesiwn gadarnhaol iawn. Roeddent yn gwerthfawrogi sgwrs gyffredinol.

Dywedodd y Cadeirydd fod plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar y strategaeth ei hun a chyfeiriodd at bwysigrwydd Mae Fy Mhethau i o Bwys; y syniad yw na ddylai plant a phobl ifanc fod yn pacio eu heiddo mewn bag plastig; mae'n ymwneud â pharch.

Gofynnodd yr Aelodau am Ganolfan Asesu Heol Colum a pha mor hir yw'r asesiad sy'n digwydd yno, a pha mor hir y mae'n cymryd i gael lle iddynt mewn ysgol leol. Clywodd yr Aelodau fod y broses asesu yn dechrau'n gyflym iawn ar ôl cyrraedd. Mae'r amser y mae'n ei gymryd yn dibynnu ar y person ifanc ac a oes anghydfod ynghylch oedran y person ifanc. Mae'r canllawiau'n nodi y dylid cynnal yr asesiad o fewn 16 wythnos; mae'r rhan fwyaf yn cael eu gwneud o fewn yr amserlen honno. Gallant fod yn asesiadau cymhleth. Pan fo anghytundeb ynghylch oedran y plant a'r bobl ifanc, fe'u hystyrir yn blant yn gyntaf. Yn y rhan fwyaf o achosion gallant gael mynediad i addysg ysgol. Os na, mae cyfleoedd dysgu o bell yn cael eu hystyried. Mae gan Gaerdydd fantais wrth reoli'r broses asesu o gofio ymgysylltiad cynnar y Cyngor â Llywodraeth y DU mewn perthynas â phlant heb eu hebrwng sy’n ceisio lloches.

Trafododd yr aelodau natur y llety yng Nghanolfan Asesu Heol Colum. Nododd swyddogion ei fod yn darparu llety ac yn ganolfan asesu; nid yw'r rhai dan 16 oed a throsodd yn cael eu lletya ar wahân. Os oes anghytundeb ynghylch oedran, cânt eu trin fel plant yn y lle cyntaf hyd nes y gellir datrys yr anghytundeb. O ran darpariaeth, mae'n bwysig nodi, deall ac asesu'r hyn sydd ei angen ar berson ifanc; bydd gan rai plant a phobl ifanc aelodau o'r teulu neu gysylltiad mewn rhannau eraill o'r DU felly yn aml mae rhesymau pam y gallai fod angen iddynt fynd i fyw yn rhywle arall. Os nad yw hynny'n wir, byddant yn cael eu hasesu ac yna'n symud ymlaen gyda'r darpariaethau priodol ar waith. Mae'n asesiad o ansawdd uchel.

Gofynnodd yr aelodau a yw safle Heol Colum yn ddigon mawr, a chawsant eu cynghori ei fod yn diwallu'r angen ar hyn o bryd. Nid hwn oedd y defnydd a fwriadwyd, ond mae wedi bod yn hynod fuddiol wrth gefnogi'r plant hynny sydd ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches. Byddai unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol yn rhan o'r strategaeth llety ehangach.

O ran anghydfodau ynglyn ag oedran, cynghorwyd yr Aelodau y gellid anghytuno ynghylch oedran ar yr adeg y mae'r person ifanc yn cael mynediad i'r DU. Byddai gwybodaeth yn cael ei darparu gan y Swyddfa Gartref. O ran yr asesiad, mae'n broses genedlaethol lle mae'n rhaid i ddau weithiwr cymdeithasol ymgymryd â'r broses; mae'n rhaid i'r ddau ymwneud â'r broses drwyddi draw. Rhaid cael o leiaf 5 sesiwn pan fyddant yn cwrdd â'r person ifanc. Nid yw'n wyddoniaeth union fodd bynnag, mae cyfraith achosion sylweddol y mae'n rhaid ei dilyn.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod eu hanghenion fel plant yn cael blaenoriaeth. Maent yn gallu cael mynediad i'r gwasanaeth seicoleg drwy ENFYS sy'n bartneriaeth â Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a Gwasanaethau Plant. Maen nhw'n edrych ar faterion iechyd meddwl. Mae cyfleoedd amlddiwylliannol hefyd a darperir eiriolwr sy’n bresennol ym mhob sesiwn.

Trafododd yr Aelodau gynllun peilot UBI a oedd yn rhywbeth y cyfeiriwyd ato adeg ymweliad yr Aelodau Etholedig â chanolfan asesu Heol Colum. Fe'i codwyd ar lefel Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Nododd yr Aelodau ei fod yn gynllun peilot ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sy'n gadael gofal, ac mae'n ymwneud â'r ffordd fwyaf priodol o ddarparu cymorth ariannol drwy gydol y peilot. Mae meini prawf llym na ellir gwyro oddi wrthynt, ond mae sgyrsiau rheolaidd ac mae adborth yn cael ei roi i Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd yr aelodau o gael gwybodaeth am y 'Pennaeth Rhithwir'. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod aelodau'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol wedi cael y cyfle i gael gwybodaeth am y pecyn cymorth Rhithwir sy'n olrhain y data mewn perthynas â'r plant hynny yn ysgolion Caerdydd. Bydd y Pennaeth Rhithwir mewn sefyllfa i gael mynediad at yr holl ddata; bydd yn goruchwylio'r canlyniadau addysg a bydd ganddi dîm cyfan o'i chwmpas. Mae'n rhaid cyfieithu'r data i ganlyniadau gwirioneddol. Mae'n rôl sy'n hanfodol bwysig ac yn cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru. Mae modelau tebyg yn Lloegr a'r Alban. Cafodd y Pwyllgor fanylion am y penodiad newydd - Deborah Williams, sy'n adnabyddus iawn ym myd addysg yng Nghaerdydd. Roedd hi hefyd yn rhan o'r ymgynghoriad i'r rôl. Mae'r cyllid am ddwy flynedd i ddechrau, ond y gobaith yw, gyda llawer iawn o lobïo bydd yn cael ei ymestyn.

Trafododd yr Aelodau yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y mis diwethaf. Mae Deborah wedi bod yn mynd i'r afael â beth fydd y rôl; mae hi wedi cael cyfle i fynd i Loegr a'r Alban i edrych ar arfer gorau a dysgu o'u profiadau. Bydd hyn yn sicrhau bod rôl y pennaeth rhithiol dros y 18 mis nesaf yn dod yn amhrisiadwy ac yn gynaliadwy wrth symud ymlaen gyda'r bwriad o ddarparu cyllid pellach. Yn flaenorol, roedd aelod o dîm Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn y rôl. Nawr bydd tîm ar waith i'w chynorthwyo a'i chefnogi a bydd yn rhan o'r Tîm Rheoli Addysg.

Gofynnodd yr Aelodau am yr agenda dileu elw ac ymateb pobl ifanc i hynny. Roedd pobl ifanc yn teimlo mai arian sy'n dod yn brif gonsyrn pan ych chi’n dod yn blentyn

sy'n derbyn gofal, naill ai gan yr awdurdod lleol neu ofalwyr maeth. O brofiad y plant a phobl ifanc, maen nhw wedi clywed y mathau hynny o sgyrsiau; nid yw hynny'n iawn. Mae'n ymwneud â sicrhau bod person ifanc yn teimlo ei fod yn cael ei barchu ac nad yw'n beth i'w brynu a'i werthu.

Nododd yr Aelodau, er nad oedd dolen i'r gwasanaeth eiriolaeth yn y fideo yr oedd dolen wedi'i darparu ar ei gyfer, bod pob plentyn sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Plant, p'un a yw'n blentyn sy'n derbyn gofal neu'n blentyn a fydd yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant, yn mynd trwy broses cynnig rhagweithiol, sy'n golygu bod gan yr awdurdod drefniant gyda darparwr eiriolaeth. Yng Nghaerdydd, NYAS yw'r darparwr eiriolaeth. Maent yn Elusen. Maen nhw'n rhoi cymorth ar unrhyw fater ar unrhyw adeg; ac yn gwneud yn siŵr bod y person ifanc yn gwbl ymwybodol o'i hawliau.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y 5 blaenoriaeth y cyfeiriwyd atynt a beth mae'r awdurdod am ei wella, ond holwyd sut y byddai'r gwelliannau'n digwydd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y 5 blaenoriaeth hynny yn eistedd ochr yn ochr â gwybodaeth a gynhwysir yn y Strategaeth Rhianta Corfforaethol, sy'n cynnwys llawer mwy o fanylion am yr hyn fydd yn cael ei wneud i wella'r blaenoriaethau hynny yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol yn edrych ar bob un o'r blaenoriaethau hynny i weld beth y gellir adeiladu arno. Mae Bwrdd Plant a Phobl Ifanc hefyd. Un o swyddogaethau allweddol y bwrdd hwnnw yw gyrru'r blaenoriaethau yn eu blaen. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dwyn ynghyd y prif themâu. Rhoddir ystyriaeth i'r ffordd orau o adrodd yn ôl i blant a phobl ifanc ynghylch sut yr eir i'r afael â'u pryderon, a sut y gellir gwella ar hyn. Mae strategaeth cyfranogi yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Mae ymgynghori, adborth a gwerthusiad o effeithiolrwydd yn ffurfio rhan o hynny.

Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth am Voices from Care Cymru a'r hyfforddiant a gynigiwyd. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau eu bod yn sefydliad trydydd sector; maent yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor, plant a phobl ifanc, maent hefyd yn herio ac wedi mynychu'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol. Nhw a NYAS yw'r darparwyr eiriolaeth mwyaf yng Nghymru.

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol a'r Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd ar gyfer y ffordd ymlaen.

## 5 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau brys.

## 6 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gadarnhau ar ôl Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 25 Mai 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.55 pm